**COFNODION LGH-18-02 (mins)**

**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**Dyddiad: DYDD MERCHER 11 RHAGFYR 2002**

**Amser: 09.30am - 12.30pm**

**Lleoliad: YSTAFELL BWYLLGORA 2, ADEILAD Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL**

**Yn Bresennol:**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gwyr |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Peter Law (o 10.00am ymlaen) | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn Bresennol*

| | |
|---|---|
| Kate Cassidy | Moderneiddio Llywodraeth Leol |
| John Bader | Y Cyfarwyddwr Tai |
| Norma Barry | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |

| | |
|---|---|
| Frank Cuthbert | Moderneiddio Llywodraeth Leol |
| David Robinson | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| Rob Hay | Cyllid Llywodraeth Leol |
| Patricia Jenkins | Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-Bostfeistri |
| Sian Ambers | Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-Bostfeistri |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Y Clerc |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc |

**9.30am hyd 9.35am**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1. Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor a'r cyhoedd.

1.2 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddatganiadau o fuddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 4.5.

Ni wnaed unrhyw ddatganiad.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau ei bod wedi rhoi tystiolaeth lafar i Gomisiwn Richard ar 6 Rhagfyr.

**9.35am hyd 9.50am**

**Eitem 2: Adroddiad Ysgrifenedig y Gweinidog**

**LGH-18-02(p.1)**

2.1 Yn ogystal â'r eitemau yn ei hadroddiad ysgrifenedig rhoddodd y Gweinidog y wybodaeth ganlynol am y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES). Dywedodd yr aethpwyd i'r afael â rhai o'r materion ac y gellid delio â rhai eraill cyn yr adolygiad llawn:

- Addasu'r manylion o ran gosod pibelli a lleoli rheiddiaduron
- Cynnwys archwiliad iechyd budd-daliadau ar gyfer ymgeiswyr sydd ei angen arnynt
- Ymestyn y cynllun peilot tanwyddau solet mewn ardaloedd gwledig
- Holiaduron i gael eu dosbarthu i bawb sy'n rhan o'r Cynllun gydag adborth yn mynd yn uniongyrchol at y Gyfarwyddiaeth Dai.

2. Roedd yr aelodau yn gwerthfawrogi cymryd camau'n gyflym ar y pwyntiau uchod yn yr adolygiad HEES. Gofynnwyd i'r Gweinidog ystyried llosgi naddion pren fel ffynhonnell amgen o danwydd, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig.
3. Gwnaeth yr aelodau'r pwyntiau canlynol:

- Rhoddwyd croeso i'r hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes tai a gofynnwyd i'r Gweinidog os byddai'r grant yn mynd yn uniongyrchol i Brifysgol Caerdydd?
- Wrth ddatblygu'r Strategaeth Lleiafrifoedd Du ac Ethnig, gwelwyd bod angen darparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn y sector Lleiafrifoedd Du ac Ethnig mewn perthynas â materion tai.
- Cafodd y Gweinidog ganmoliaeth am ei hymdrechion parhaus i ddatganoli pwerau dros Reoliadau Adeiladu i'r Cynulliad.
- Cafodd y cyhoeddiad ar gamddefnyddio sylweddau ei groesawu ond pwysleisiwyd yr angen ledled Cymru. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'r fenter yn cynnwys camddefnyddio alcohol, pa dargedau a oedd wedi'u pennu a sut y byddai effeithiolrwydd y cynllun yn cael ei fesur.
- Tynnwyd sylw'r Gweinidog at gyhoeddiad Saesneg gan Fwrdd Safonol Lloegr o'r enw "*Councillors Behaving Badly*" a gafodd ei ddosbarthu i Aelodau o Gyngor Tref Rhuthun.
- Mynegwyd pryder ynghylch faint o Gymeradwyaeth Credyd Atodol sydd ar gael ar gyfer awdurdodau lleol i gynorthwyo ardaloedd adnewyddu a chynlluniau tai strategol yn 2003-04 gan nad oes cymaint o arian wedi'i ddyrannu ag a fwriadwyd yn wreiddiol.
- Rhoddwyd diolch i'r Gweinidog am ymgymryd â'r pryderon blaenorol am y stoc o dai lleol gwag. Ond, teimlwyd bod angen cael rhagor o drafodaethau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fynd i'r afael â'r sefyllfaoedd hyn.
- Nododd y Gweinidog bod nifer y bobl sydd wedi'u cofnodi'n ddigartref yng Nghaerdydd yn cynyddu, yn arbennig ymhlith pobl ifanc. Soniwyd am yr achos o bedair menyw feichiog yn cysgu ar y stryd. Nodwyd y bod y ffigyrau'n uwch o ganlyniad i'r ffaith fod y categorïau cofnodi wedi cael eu hymestyn.
- A oes arian Cymunedau'n Gyntaf ar gael nawr ar gyfer cymunedau y tu allan i'r rhaglen?
- Dywedodd aelodau bod y gwaith o drosglwyddo Stoc Dai Pen-y-bont ar Ogwr yn ymddangos fel petai wedi cael ei reoli'n effeithiol.

2. Ymatebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

- Byddai llosgi naddion pren yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad HEEC.
- Cadarnhaodd y byddai'r grant yn cael ei dalu'n uniongyrchol i Brifysgol Caerdydd.
- O ran rheoliadau adeiladu, roedd yn aros am ateb gan Chris Leslie AS ond ychwanegodd ei bod yn awyddus i fwrw ymlaen â'r mater.
- O ran camddefnyddio sylweddau, cadarnhaodd y byddai'r fenter yn cynnwys camddefnyddio alcohol. Dywedodd y byddai'n rhoi adroddiadau cyson i'r Pwyllgor ar y materion a'r targedau y penderfynir arnynt.
- Gofynnodd am gael gweld copi o "*Councillors Behaving Badly*" gan ddweud bod y teitl ei hun yn anffodus. Cytunodd y Gweinidog i ganfod pam fod taflen Bwrdd Safonau Lloegr wedi cael ei rhoi i gynghorwyr yng Nghymru.
- Dywedodd bod y SCA yn ddyraniad hael ond y byddai'n ceisio rhoi amcangyfrif mwy cywir yn y dyfodol.
- Dywedodd bod swyddogion yn cwrdd â Chyngor Sir Caerdydd i drafod digartrefedd a bod £50,000 ychwanegol wedi cael ei neilltuo i helpu i fynd i'r afael â'r broblem. Ychwanegodd y byddai swyddogion yn mynd ar drywydd achos y menywod beichiog.
- Cadarnhaodd bod y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol yn berthnasol i neuaddau pentref ledled Cymru ac nid i'r rhai o fewn rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn unig.
- Dywedodd y byddai'n tynnu sylw WLGA at yr arferion gorau a ddaeth yn sgil ymarfer trosglwyddo Tai Pen-y-bont ar Ogwr.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i ganfod pam fod taflen Bwrdd Safonau Lloegr "*Councillors Behaving Badly*" wedi cael ei dosbarthu i gynghorwyr yng Nghymru.
- Y Gweinidog i barhau i roi adroddiadau cyson i'r Pwyllgor ar gamddefnyddio sylweddau.
- Y Gweinidog i benderfynu ar dargedau penodol ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau a hysbysu'r Pwyllgor.
- Y Gweinidog i dynnu sylw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at yr arferion gorau sydd wedi deillio o ymarfer trosglwyddo Stoc Dai Pen-y-Bont ar Ogwr.

**<u>10.50am hyd 10.45am</u>**

**Eitem 3: Trefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru**

**LGH-18-02(p.2)**

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur a gofynnodd i'r Aelodau am eu sylwadau ar y cynigion.

2. Cynhaliwyd trafodaeth fanwl. Roedd yr aelodau'n cytuno y dylid gweithredu'r cynigion a restrir o dan Adrannau 8 a 9 yn Adroddiad Sunderland.
3. O ran Adran 13, roedd yr Aelodau hefyd yn cefnogi'r cynigion i ostwng oedran pleidleisio etholiadau llywodraeth leol i 16 oed a gostwng isafswm oedran yr ymgeiswyr i 18 oed. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y byddai'n rhaid pasio deddfwriaeth sylfaenol yn San Steffan cyn gallu rhoi'r cynigion hyn ar waith.
4. Roedd yr Aelodau'n anghytuno ynghylch y cynnig yn ymwneud â'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV) o dan Adran 14. Cafwyd trafodaeth fywiog. Dyma'r prif bwyntiau:

O blaid yr argymhelliad:

- Mae tystiolaeth yn dangos bod mwyafrif yr etholwyr o blaid y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy mewn etholiadau llywodraeth leol.
- Roedd gwaith ymchwil y Gymdeithas Diwygio Etholiadol yn nodi bod 77% o'r rhai a ymatebodd o blaid y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy gyda 63% yn dweud y byddai hon yn system gytbwys a fyddai'n gwella'r broses o lywodraethu cynghorau.
- Nodwyd bod canlyniadau Comisiwn Sunderland a'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol o blaid y newid, tra roedd ymgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn erbyn y newid.
- Roeddent yn hapus i'r Gweinidog dderbyn rhagor o dystiolaeth ar y mater ond roeddent am weld amserlen realistig (cyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2003 fyddai orau).
- Yn cefnogi'r newid ond o blaid ei ohirio tan ar ôl etholiadau'r Cynulliad.
- Dylid gwneud penderfyniadau yn lle gohirio o hyd. A oes angen rhagor o dystiolaeth pan fo 2 adroddiad uchel eu parch yn dangos fod y mwyafrif o blaid system y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy

Yn erbyn yr argymhelliad:

- Ni ellir deddfu ar sail canlyniad trafodaethau rhwng pleidiau, lle nad oes gan yr etholwyr hawl i fynegi barn.
- Mae'r math yma o system wedi achosi diymadferthedd ledled y byd.
- Yn anghytuno bod angen rhagor o dystiolaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i Adroddiad Sunderland am i'r sefyllfa bresennol barhau.
- Byddai perygl o golli aelodau annibynnol yn deillio o gyflwyno'r system hon.

3.5 O ganlyniad i'r drafodaeth, cyflwynwyd y cynnig bod y Pwyllgor yn cefnogi rhoi argymhellion Adroddiad Sunderland ar waith yn llawn. Dyfarnodd y Cadeirydd y dylid gohirio'r bleidlais tan y cyfarfod nesaf er mwyn sicrhau bod gwaith y pwyllgor yn cael ei gyflawni'n briodol.

**Pwynt Gweithredu**

- Y Clerc i gyflwyno cynnig ar Adroddiad Sunderland ar gyfer cael "Pleidlais" yn y cyfarfod nesaf.

**10.45am hyd 10.55am**

**Eitem 4: Cynigion ar gyfer Monitro a Gwerthuso Cymunedau'n Gyntaf**

**LGH-18-02(p.3)**

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur a oedd yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru i benodi contractwr i werthuso'r Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf.

4.2 Gwnaeth yr Aelodau'r sylwadau canlynol:

- Croesawodd yr Aelodau'r cynnig gan gytuno ei fod yn amserol o ran gweithredu'r rhaglen.
- Gofynnodd yr Aelodau beth fyddai'r amserlen ar ei gyfer.
- A fyddai'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno fesul ward, er mwyn eu gallu gwneud cymariaethau?
- Beth yw'r cysylltiadau rhwng cyrff cenedlaethol a rhaglenni lleol.
- Byddai'n ddiddorol gweld sut y gwnaeth rôl arweinwyr ddatblygu yn ogystal ag i ba raddau y mae gallu wedi datblygu.

3. Ymatebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

- Byddai cymaint o adnoddau ag sy'n bosibl yn cael eu datblygu o dan Cymunedau'n Gyntaf a byddai canlyniadau'r gwerthusiad yn cynorthwyo â'r broses honno.
- Bwriedir i'r gwerthusiad bara 3 blynedd.
- Bydd y Gweinidog yn ceisio cael canlyniadau fesul ward ond os na fydd hynny'n bosibl, gellir eu rhannu yn ôl ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.
- Bydd yr Adroddiad yn ystyried arweinyddiaeth a gallu ac yn ymwneud â'r holl bartneriaid.

4.4 Cytunodd y Gweinidog i roi adroddiad am y datblygiadau bob chwarter.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i hysbysu'r Pwyllgor sut y byddai canlyniadau'r gwerthusiad o raglen Cymunedau'n Gyntaf yn cael eu cofnodi h.y. fesul ward neu fesul ardal Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf.
- Y Gweinidog i ddarparu adroddiadau am y Gwerthusiad bob chwarter.

**<u>10.55am hyd 11.10am</u>**

Cytunodd y Pwyllgor i gael egwyl am 15 munud.

**<u>11.05am hyd 11.35am</u>**

**Eitem 5: Y Setliad Refeniw Llywodraeth Leol ar gyfer 2003-04**

**LGH-18-02(p.4)**

5.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur a dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai'n croesawu eu safbwyntiau erbyn 9 Ionawr 2003. Ychwanegodd bod y setliad yn gyffredinol yn golygu cynnydd o 9% i Gymru o'i gymharu â chynnydd o 8% yn Lloegr. Dengys hyn ymrwymiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i lywodraeth leol.

5.2 Dywedodd y Gweinidog bod y trafodaethau'n parhau â'r Swyddfa Gartref o ran setliad yr heddlu ac y byddai'n anfon y manylion at y Cadeirydd cyn gynted ag y gallai.

5.3 Gwnaeth yr Aelodau'r sylwadau canlynol:

- Rhoddwyd croeso i'r setliad ond nodwyd bod pob awdurdod lleol o dan bwysau difrifol o ran codiadau cyflog a chynnydd mewn chwyddiant. Hefyd, byddai cynlluniau pensiwn yn cael effaith sylweddol ar gyllidebau'r awdurdodau lleol.
- Bydd setliad terfynol yr adolygiad o gyflogau gweithwyr tân yn effeithio ar awdurdodau lleol a gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i'r dyfarniad pan gaiff ei wneud.
- Roedd canlyniadau cyfrifiad 2001 yn cofnodi newid yn y boblogaeth, yn arbennig yng Nghaerdydd ac Abertawe lle nad oedd y twf a ragwelwyd wedi digwydd. Bydd hyn yn

effeithio ar y grantiau y mae'r dinasoedd hyn yn eu derbyn.

- Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd yn parhau i fod wedi ymrwymo i leihau nifer y grantiau arbennig a chyfuno'r refeniw hwnnw â setliadau yn y dyfodol?
- Mynegwyd pryder ynghylch yr effaith y byddai newid trefniadau awdurdodau'r heddlu yn ei gael ar awdurdodau lleol.
- Yn cydnabod y bydd problemau hefyd yn ymwneud â'r trefniadau a ddefnyddir ond mai dyma'r ffordd decaf o gyfrifo grantiau.
- Teimlwyd bod defnyddio ffurflenni Meddygon Teulu i amcangyfrif amrywiadau rhwng cyfrifiadau braidd yn gyntefig. A oedd ffordd well o gyfrifo'r wybodaeth hon?

5.4 Ymatebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

- Rhagwelwyd y byddai pwysau ychwanegol yn deillio o'r anghydfod ynghylch cyflogau'r gwasanaeth tân. Bydd y Gweinidog yn ystyried y mater cyn gynted ag y byddai ffigyrau ar gael. Ychwanegodd y bydd y setliad yn effeithio ar awdurdodau lleol Cymru ac os gwelir na fydd awdurdodau lleol yn gyffredinol yn gallu fforddio'r cynnydd, roedd yn gobeithio y byddai'r Trysorlys yn rhoi arian i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr er mwyn ysgafnhau'r pwysau.
- Mae Caerdydd yn enwedig, ac Abertawe i raddau llai, wedi elwa yn ystod y 10 mlynedd diwethaf o ganlyniad i amcangyfrif uwch ar gyfer y twf yn y boblogaeth nag a gafwyd mewn gwirionedd.
- Cadarnhaodd ei bod wedi ymrwymo i leihau nifer y grantiau arbennig ond roeddent yn cael effaith drawsbynciol ar ei chydweithwyr yn y cabinet.
- Cytunodd i baratoi nodyn ar setliad hanesyddol awdurdodau'r heddlu er gwybodaeth, a byddai'n cynnwys rhywfaint o gefndir y broses a gafwyd eleni. Serch hynny, ni allai ddatgelu gwybodaeth am y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt.
- Cytunodd nad oedd y fformiwla'n berffaith ond mai dyma'r ffordd decaf o ddyrannu arian.
- Dywedodd Rob Hay bod data o ffurflenni Meddygon Teulu, yn ogystal â mathau eraill o wybodaeth gysylltiedig, yn cael ei ddefnyddio yn ystod y cyfnod rhwng pob cyfrifiad i amcangyfrif lefel y boblogaeth.

5.5 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog yn nodi safbwyntiau'r Pwyllgorau ar y setliad.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Darparu nodyn yn rhoi cefndir y problemau a gafwyd y llynedd o ran setliad yr heddlu a rhoi rhagor o wybodaeth am y sefyllfa bresennol.
- Y Gweinidog i ysgrifennu at y Cadeirydd am fanylion y setliad ar gyfer Awdurdodau'r Heddlu yng Nghymru pan fydd y wybodaeth ar gael.

**<u>11.35am hyd 11.45pm</u>**

**Eitem 6: Yr Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedol**

**LGH-18-02(p.5)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog y papur yn nodi y disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer swydd Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth gael ei gyhoeddi'n fuan. Ychwanegodd y byddai'n trefnu cyfarfod anffurfiol gyda'r person llwyddiannus pe byddai'r Aelodau yn teimlo bod hynny'n ddefnyddiol. Roedd yr aelodau'n croesawu hyn.
2. Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Menter gadarnhaol iawn a gwnaethpwyd datblygiadau anhygoel ers i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddod i fodolaeth.
- Mae cynrychiolwyr o'r 3 Awdurdod Tân wedi nodi yr hoffent weld Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael mwy o rym dros eu sefydliadau.
- Roedd yr awdurdodau tân wedi gwneud gwaith gwych ym myd addysg ond gofynwyd tybed a fyddai gorgyffwrdd yn digwydd ar ôl sefydlu'r Ymddiriedolaeth.
- Mae'n bwysig bod yr Ymddiriedolaeth yn cydlynu ac yn ategu gwaith yr awdurdodau tân.

1. Ymatebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

- Mae'r 3 Phrif Swyddog Tân yn ymddiriedolwyr yn yr Ymddiriedolaeth ac maent eisoes wedi trafod dull gweithredu cydlynol er mwyn sicrhau nad yw'r gwaith yn cael ei ailadrodd a bod yr awdurdodau a'r Ymddiriedolaeth yn cydweithio'n dda ac yn cynorthwyo'i gilydd.
- Ychwanegodd ei bod wedi rhoi tystiolaeth yn ddiweddar i ymchwiliad Bain ar y Gwasanaeth Tân yng Nghymru. Dywedodd ei bod wedi dweud ei bod yn croesawu mwy o gyfranogiad a chyfranogiad cryfach gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y gwaith o reoli'r awdurdodau tân.

**Pwynt Gweithredu**

- Y Gweinidog i gyflwyno'r aelodau i Brif Weithredwr newydd yr Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedol, ar ôl gwneud y penodiad.

**<u>11.45pm hyd 12.20pm</u>**

**Eitem 7: Cyflwyniad gan Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-Bostfeistri yng Nghymru**

1. Croesawodd y Cadeirydd Patricia Andrews a Sian Ambers o Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-Bostfeistri i'r Pwyllgor a gwahoddodd Ms Andrews i wneud ei chyflwyniad.
2. Derbyniodd yr aelodau gopi o'r sleidiau PowerPoint ac amgaeir copi ychwanegol yn Atodiad 1.
3. Diolchodd yr aelodau Ms Andrews am ei chyflwyniad a oedd yn tanlinellu'r pryderon a godwyd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn ddiweddar. Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Gobeithio y byddai'r Pwyllgor yn ystyried gwneud cyflwyniadau pellach i DWP ar ôl y cyflwyniad hwn ar ddyfodol pensiynau a budd-daliadau. Gofynnwyd i Patricia Andrews ddosbarthu copïau o'r taflenni sy'n sôn am y newidiadau i'r Ysgrifenyddiaeth.
- Mae swyddfeydd post yn adnodd hollbwysig i'r gymdeithas ac i'r economi.
- Ceisiwyd cael diffiniad o'r swyddfa bost wledig.
- Mae'n bwysig i bobl allu dewis sut a lle yr hoffent fynd i gasglu eu pensiwn/budd-dâl. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i bobl hyn sy'n amheus iawn o fanciau ac, yn aml, eu hymweliad â swyddfa'r post fydd eu hunig gyfle i siarad â phobl.
- Sut ydych yn denu pobl at y busnes?
- Pa gyfleusterau bancio all swyddfeydd post eu cynnig?
- A yw contractau yn clymu is-bostfeistri at un lleoliad neu a allant weithio o fwy nag un lleoliad.

1. Ymatebodd Patricia Andrews fel a ganlyn:

- Y diffiniad o swyddfa bost wledig oedd bod y boblogaeth o amgylch y lleoliad yn llai na 10,000. Dywedir bod swyddfeydd post trefol o fewn lleoliad sydd â 10,001 neu fwy o bobl.
- Byddai'n anodd denu pobl at y busnes wedi i'r is-bostfeistri ymddeol a byddai hynny hyd yn oed yn anos ar ôl dirwyn pensiynau a budd-daliadau i ben.
- O fis Ebrill 2003 ymlaen, bydd gan 7 o fanciau'r stryd fawr gyfleusterau bancio syml mewn swyddfeydd post a gobeithir y bydd mwy yn ymuno â'r cynllun.
- Mae is-bostfeistri yn gyffredinol wedi'u clymu at un lleoliad yn ôl eu contrct, ond mae camau ar y gweill i gynnig gwasanaethau mewn is-leoliadau mewn lleoliadau anghysbell. Trafodwyd defnyddio gwasanaeth symudol hefyd.

1. Diolchodd Patricia Andrews i'r Pwyllgor am eu holl gymorth wrth danlinellu'r problemau sy'n wynebu swyddfeydd post.

7.9 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n paratoi llythyr yn nodi sylwadau'r Aelodau ac yn ei anfon at DWP yn amlinellu safbwyntiau'r Pwyllgor ar y materion hyn.

**12.25pm hyd 12.30pm**

**Eitem 8: Ystyried y flaenraglen waith**

**LGH-18-02(p.6) Atodiad**

8.1 Cytunwyd ar y flaenraglen waith.

**Eitem 9: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd**

**LGH-17-02(min)**

1. Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd eu cymeradwyo.

9.2 Dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen i'r Aelodau.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau

2002 Rhagfyr 2002